

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 7 Rhagfyr 2016

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 13 RHAGFYR 2016** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 3 - 4)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2016 (copi ynghlwm).

5 CYNLLUN COMISIYNU LLEOL CEFNOGI POBL SIR DDINBYCH 2017-18 (Tudalennau 11 - 62)

Rhoi ystyriaeth i adroddiad gan y Cynghorydd Bobby Feeley, yr Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant (copi wedi'i amgáu) yn ceisio cymeradwyaeth i Gynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl 2017-18 a 2017 cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ac i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2017.

**6 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL –
CHWARTER 2 – 2016/17** (Tudalennau 63 - 102)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi wedi'i amgáu) yn rhoi diweddariad ar ddarparu Cynllun Corfforaethol 2012 – 17 ar ddiwedd chwarter 2 2016/17.

7 ADRODDIAD CYLLID (Tudalennau 103 - 120)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi wedi'i amgáu) yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd ar strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET (Tudalennau 121 - 124)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd wedi'i hamgáu, a nodi'r cynnwys.

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

Dim.

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Hugh Evans
Julian Thompson-Hill
Eryl Williams
Bobby Feeley

Hugh Irving
Huw Jones
Barbara Smith
David Smith

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 15 Tachwedd 2016 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr: Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Huw Jones, Aelod Arweiniol Datblygu Cymunedol; Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg.

Arsylwyr: Y Cyngorwyr Ray Bartley, Meirick Davies, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Alice Jones, Arwel Roberts a Huw Williams.

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (RM) a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau'r Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd (GW) ac Addysg (KE); Prif Reolwr y Gwasanaethau Addysg (GD); Rheolwr Rhaglen – Moderneiddio Addysg (JC); Swyddog Comisiynu a Thendro (LD); Prif Swyddog Cyllid (RW) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

CROESO

Croesawodd yr Arweinydd bawb i'r cyfarfod ac estyn croeso arbennig i'r Cyngorydd Huw Jones oedd yn dychwelyd ar ôl salwch.

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cyngorydd Martyn Holland gysylltiad personol ag eitem rhif 5 ar y rhaglen : Adolygu Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn gan ei fod yn Lywodraethwr yn Ysgol Bro Famau.

3 MATERION BRYD

Ni chafwyd unrhyw faterion bryd.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2016.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2016 fel cofnod cywir a'u llofnodi gan yr Arweinydd.

5 ADOLYGIAD O YSGOL LLANFAIR AC YSGOL PENTRECELYN

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams yr adroddiad a oedd yn nodi cefndir yr adolygiad mewn perthynas ag Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn, ynglŷn â'r rhesymeg dros y dull a argymhellir.

Ar ôl cwblhau'r broses trefniadaeth ysgolion ym mis Hydref 2015, cymeradwyodd y Cabinet argymhelliad i gau Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn ac agor ysgol gynradd newydd Categori 2 yr Eglwys yng Nghymru gyda dwy ffrwd. Heriwyd y penderfyniad drwy Adolygiad Barnwrol a'i ddileu ar seiliau gweithdrefnol. Nid oedd y Llys wedi beirniadu rhinweddau'r cynnig a byddai modd gwneud penderfyniad tebyg yn dilyn ymarfer ymgynghori pellach. Fodd bynnag, roedd angen ailystyried unrhyw gynnig yn y dyfodol yn seiliedig ar effaith ehangach a'r amgylchiadau presennol gan roi sylw dyledus i gydlyniant cymunedol a dysgwyr. Ar ôl trafodaethau gyda chymunedau'r ddwy ysgol, roedd yn amlwg nad oeddent yn dymuno ail-ystyried yr un cynnig a byddai olrhain y dewis hwnnw yn peri risg o ymraniad cymunedol a heriau cyfreithiol pellach. Roedd hefyd yn amlwg na ellir parhau â'r sefyllfa bresennol yn Ysgol Llanfair ac roedd galw am ysgol Categori 2 gynaliadwy yn yr ardal. Yn sgil yr ystyriaethau hynny, argymhellwyd na ddylid ymgynghori ar y cynnig gwreiddiol. Yn hytrach, gofynnwyd i'r Cabinet ystyried cynigion i ail-adeiladu Ysgol Llanfair ar safle newydd ac i beidio â chymryd unrhyw gam pellach ar gyfer dyfodol Ysgol Pentrecelyn a fyddai'n parhau fel ysgol Categori 1.

Amlygodd yr Arweinydd nod y cyngor i fuddsoddi mewn ysgolion newydd a chreu adeiladau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol ac i roi plant wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Er bod yr holl aelodau wedi cefnogi blaenoriaeth y Cyngor i foderneiddio ysgolion, roedd y broses wedi arwain at benderfyniadau anodd a chydabuwyd fod y broses yn yr achos hwn wedi bod yn anodd iawn ar gyfer y cymunedau dan sylw. Er y byddai modd ymgynghori eto ar y cynigion gwreiddiol, teimlwyd y byddai'r ymraniad a achoswyd yn y cymunedau o ganlyniad i'r broses yn amharu ar unrhyw gydweithrediad rhwng y cymunedau yn y dyfodol agos. O ganlyniad, fel yr Aelod Lleol, cefnogodd yr Arweinydd argymhellion yr adroddiad a fyddai'n caniatáu i Ysgol Pentrecelyn barhau fel ysgol Categori 1 ac i elwa o'r un gefnogaeth a ddarperir i bob ysgol arall yn y sir, a darparu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Llanfair o ystyried y cyfleusterau gwael iawn sydd ar y safle a'r pryderon o ran diogelwch ar y ffyrdd.

Ar ôl ystyried y ffactorau perthnasol a'r rhesymau dros y cynigion, cefnogodd y Cabinet yr argymhellion. Derbyniwyd na fyddai'n fuddiol parhau â'r cynnig gwreiddiol o ystyried y digwyddiadau diweddar a'r gwrthdaro parhaus dros y categori iaith arfaethedig na ellir ei ddatrys i fodloni cymunedau'r ddwy ysgol. O ran Ysgol Llanfair, roedd yn amlwg bod angen buddsoddi mewn adeiladu ysgol newydd Categori 2 â dwy ffrwd yn yr ardal, ac fe gyfeiriwyd yn benodol at yr amodau llawn a'r cyfleusterau anaddas nad oeddent yn arwain at ddysgu da a dyletswydd y Cyngor i ddarparu'r cyfleusterau gorau ar gyfer disgyblion lle bo modd.

Gwahoddodd yr Arweinydd gwestiynau a sylwadau gan rai nad oeddent yn Aelodau Cabinet ac roedd prif bwyntiau'r drafodaeth yn canolbwyntio ar y canlynol-

- Er bod cefnogaeth gyffredinol ar gyfer argymhellion yr adroddiad ceisiwyd sicrwydd o ran diogelu Ysgol Pentrecelyn ar gyfer y dyfodol, a phwysleisiwyd bod angen cydraddoldeb a chwarae teg, yn enwedig o ran buddsoddiad yn yr ysgol. Eglurodd y Cynghorydd Eryl Williams y byddai'r sefyllfa bresennol yn cael ei chynnal yn Ysgol Pentrecelyn a fyddai'n parhau i dderbyn cefnogaeth gan y Cyngor a GwE ochr yn ochr â holl ysgolion y sir. O ran buddsoddiad, defnyddir yr un ymagwedd ag ardal Llanferres/Llanarmon gyda buddsoddiad yn y dyfodol yn cael ei ystyried fel rhan o gynigion cyllid Band B ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif. Wrth arwain yr alwad am fwy o sicrwydd, ceisiodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts fesurau cadarn i ddiogelu dyfodol hirdymor Ysgol Pentrecelyn y tu hwnt i gyfnod oes y Cyngor presennol. Fodd bynnag, nodwyd y byddai'r Cyngor newydd, a fydd yn cael ei ethol yn dilyn etholiadau mis Mai 2017, yn gosod ei flaenoriaethau ei hun, ac er y gobeithir y byddent yn parhau ac yn ategu at waith y cyngor presennol, ni ellir gwarantu hynny.
- Y prif wrthwynebiad i'r cynnig gwreiddiol oedd y categori iaith ar gyfer yr ysgol ardal newydd a gofynnodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts y cofnodir y bu parodrwydd ar ran Ysgol Pentrecelyn i weithio gydag Ysgol Llanfair i greu ysgol Categori 1 newydd. Roedd y Cynghorydd Eryl Williams yn gobeithio y byddai'r ymraniadau cymunedol a grëwyd o ganlyniad i'r broses yn adfer dros amser – roedd carfannau wedi'u rhannu oherwydd y safbwyntiau gwrthwynebol o ran y categori iaith ac roedd mwyafrif y gefnogaeth yn cefnogi ysgol Categori 2. Y flaenoriaeth wrth symud ymlaen oedd darparu addysg ag ansawdd gwell yn y dyfodol.
- Roedd y Cynghorwyr Alice Jones ac Arwel Roberts wedi gwrthwynebu penderfyniad gwreiddiol y Cabinet i beidio â dynodi'r ysgol ardal newydd fel ysgol Categori 1 a mynegwyd pryder ynglŷn â'r broses gyfreithiol faith a gafwyd. Cyfeiriodd y Cynghorydd Roberts at gyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 11 Mehefin 2015 ac roedd yn siomedig fod y pwyllgor wedi penderfynu peidio â gofyn i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad, yn enwedig gan y byddai'r canlyniad yn wahanol pe bai dim ond yr aelodau etholedig wedi'u caniatáu i bleidleisio yn y cyfarfod hwnnw. Cadarnhaodd y swyddogion fod gan aelodau cyfetholedig y pwyllgor hawl cyfreithiol i bleidleisio ar y mater
- O ran canlyniad yr adolygiad barnwrol, roedd y Cynghorydd Martyn Holland wedi ceisio sicrwydd ynglŷn â'r broses yn flaenorol, ac roedd yn gobeithio y gellir dysgu gwersi o ganlyniad i'r broses. Roedd yn falch o nodi y byddai Pwyllgor Archwilio Cymunedau yn adolygu'r broses honno yn y dyfodol. Teimla'r swyddogion ei bod yn bwysig nodi nad oedd y broses gyfan yn wallus a bod yr adolygiad barnwrol yn cyfeirio at yr agwedd weithdrefnol. Byddai deall yr agwedd honno yng nghyd-destun cod trefniadaeth ysgolion yn derbyn trafodaeth bellach yn y pwyllgor archwilio. Yn bersonol, roedd y Cynghorydd Eryl Williams yn credu bod y Cyngor wedi dilyn y broses gywir a bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn anghywir.
- Cefnogodd y Cynghorydd Huw Williams argymhellion yr adroddiad ond lleisiodd ei bryderon ynglŷn â'r camau cyfreithiol a gododd o'r penderfyniad gwreiddiol a'r gost ddilynol i'r awdurdod. Cyfeiriodd at y rheolau newydd i gefnogi ysgolion gwledig Cymru, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan yr Ysgrifennydd Addysg, ac yn

dilyn y datganiad hwnnw gofynnodd am ailystyried y penderfyniad i gau Ysgol Llanbedr. Eglurodd y swyddogion y costau a ysgwyddir gan yr awdurdod o ganlyniad i'r adolygiad barnwrol ac eglurwyd, oherwydd dyfarniad gan y llys, roedd y Cyngor yn atebol am fwyafrif helaeth y costau beth bynnag fo'r canlyniad. O ran Ysgol Llanbedr, disgwylir penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Addysg. Awgrymodd datganiad diweddar y byddai rheolau newydd yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol mewn perthynas ag ysgolion gwledig yn dilyn ymarfer ymgynghori, ac o ganlyniad byddai'n anodd ymateb ar y cam hwn yn y broses.

- mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut y byddai lleoedd dros ben yn cael eu datrys yn yr ardal, cadarnhaodd y swyddogion y byddai niferoedd disgyblion a maint yr adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Llanfair yn cael eu hystyried yn ystod y cam o ddatblygu'r achos busnes.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Bobby Feeley at yr argymhellion fel datrysiaid cyfaddawd a gobeithir y byddai'r penderfyniad yn gymorth i adfer yr ymraniad rhwng y cymunedau. Y gobaith ar ddechrau'r broses adolygu oedd y byddai cytundeb yn cael ei ffurfio ond yn anffodus nid dyma'r achos ac yr argymhellion hyn yw'r ffordd orau ymlaen yn awr ar gyfer y ddwy ysgol.

Cynigodd y Cyngorydd Eryl Williams yr argymhellion i sicrhau'r dyfodol gorau ar gyfer y ddwy ysgol, fe'i eiliwyd gan y Cyngorydd Hugh Evans. Wedi hynny –

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn -

- (a) *cytuno bod y swyddogion yn datblygu achos busnes ar gyfer adeilad newydd ar gyfer Ysgol Llanfair DC, ac*
- (b) *yn cytuno i gynnal y sefyllfa bresennol o ran Ysgol Pentrecelyn.*

6 AMRYWIAD CONTRACT Y DYFODOL (ESTYNIAD)

Cyflwynodd y Cyngorydd Bobby Feeley yr adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymestyn contract prosiect Y Dyfodol gyda Chymdeithas Tai Clwyd Alyn tan 30 Medi 2018, ac archwilio'r dewis o ddatblygu cytundeb partneriaeth gyda Clwyd Alyn ar gyfer darparu'r gwasanaeth ar ôl mis Medi 2018.

Roedd 46% o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc a ariennir gan Gefnogi Pobl yn Sir Ddinbych yn cael ei ddarparu o dan brosiect Y Dyfodol a oedd yn darparu 33 uned o dai â chymorth. Roedd y contract presennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2017 a byddai'r amrywiad contract arfaethedig yn ymestyn y contract am 18 mis pellach gan arwain at werth contract diwygiedig o £2,627,698.10 (roedd y gost flynyddol eisoes wedi'i chyllidebu yng Ngrant Cefnogi Pobl). Ymhelaethodd y Cyngorydd Feeley ar y rhesymau dros ymestyn y contract er mwyn ail-fodelu Y Dyfodol mewn cydweithrediad â budd-ddeiliaid allweddol fel rhan o ddatblygiad ymagwedd ehangach Llwybr Pobl Ifanc oedd wedi'i nodi fel blaenoriaeth ar gyfer datblygu'r gwasanaeth. Roedd amlinelliad bras a llinell amser wedi'u cytuno ac fe gynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gyda Clwyd Alyn i ddarparu'r gwasanaeth a ailfodelwyd. O ystyried lefel y goblygiadau gwario o ganlyniad i estyniad y contract, roedd angen cymeradwyaeth y Cabinet.

Ymatebodd y Swyddog Comisiynu a Thendro i'r cwestiynau fel a ganlyn-

- ymhelaethodd ar fwriad y gwasanaeth a ail-fodelwyd i leihau nifer yr unedau llety â chymorth gan eu disodli gyda chymhareb staff uwch gydag un uned a rennir llai sydd â dwysedd uwch ac unedau hunangynhwysol gwasgaredig.
- eglurodd y rhesymeg y byddai symud i ymyraethau gwell ar gam cynharach yn y Llwybr newydd ar gyfer pobl ifanc sy'n datgan eu bod yn ddigartref yn arwain at ostyngiad mewn galw am unedau llety â chymorth.
- cynghorodd bod 'gweithwyr cymorth fel bo'r angen' yn darparu cymorth i bobl ifanc yn eu llety eu hunain yn hytrach na chymorth penodedig i gyfeiriad penodol.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn -

- (a) *cymeradwyo estyniad contract Y Dyfodol gan Clwyd Alyn tan 30 Medi 2018, ac yn*
- (b) *cymeradwyo'r cynnig i archwilio'r dewis o ddatblygu cytundeb partneriaeth gyda Clwyd Alyn er mwyn darparu'r gwasanaeth ar ôl mis Medi 2018.*

7 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chyllidebau gwasanaeth ar gyfer 2016/17. Darparodd grynodedb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn-

- rhagwelwyd tanwariant net o £0.545 miliwn ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- Roedd 68% o'r arbedion wedi'u cyflawni hyd yn hyn (targed o 5.2m) gyda 2% pellach yn gwneud cynnydd da; byddai 25% yn cael eu gohirio ac yn cael eu cyflawni yn 2017/18 gyda dim ond 5% o'r arbedion heb eu cyflawni o fewn y terfyn amser.
- amlygodd y risgiau cyfredol a'r rhagdybiaethau yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol
- diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol).

Cafodd y materion canlynol eu codi yn ystod y drafodaeth -

- cyfeiriwyd at y goblygiadau ariannol sy'n deillio o fethiant GHA Coaches, ac adroddodd y Cynghorydd David Smith ar yr ymdrechion parhaus i dderbyn cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo i ddiwallu'r costau hynny – roedd y mater wedi'i ganlyn yn gryf ac fe hysbysir y Cabinet pan dderbynnir ymateb gan Weinidog yr Economi a Seilwaith mewn perthynas â hynny.
- Tynnwyd sylw at y pwysigrwydd o ddarparu gwasanaethau bysiau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac eglurodd y Cynghorydd Smith y byddai unrhyw gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru'n daliad un tro mewn perthynas â'r costau ychwanegol a achoswyd i'r Cyngor i adfer y gwasanaethau bysiau lleol ar ôl methiant GHA. O ran darpariaeth barhaus gwasanaethau bysiau lleol, byddai Aelodau Arweiniol o awdurdodau lleol Gogledd Cymru'n

cyfarfod yn ddiweddarach yr wythnos honno i drafod y mater. Nodwyd nad oedd Fforwm Cludiant Gwledig y Cyngor wedi cyfarfod ers peth amser ac roedd yr Arweinydd yn teimlo y byddai'n briodol trefnu cyfarfod er mwyn derbyn gwell dealltwriaeth o wasanaethau lleol yn Sir Ddinbych.

- Roedd rhan o'r drafodaeth yn canolbwyntio ar falansau ysgolion ac fe godwyd pryderon ynglŷn â'r pwysau ar ysgolion a'r defnydd o falansau er mwyn parhau â'r gwaith da nad oedd yn gynaliadwy yn hirdymor- cyfeiriwyd at lefel y balansau a chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hynny. Canmolodd y Cynghorydd Eryl Williams waith y Fforwm Cyllideb Ysgolion ac adroddodd am y Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd i adolygu lefel balansau ysgolion a sut yr ariennir ysgolion.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Bobby Feeley at ddatblygiad yr adeilad ysgol newydd a rennir yng Nglasdir ar gyfer Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Penbarras a cheisiodd sicrwydd y byddai'r ysgolion yn agor ar amser ym mis Medi 2017. Eglurodd y Cynghorydd Eryl Williams fod prosiectau adeiladu o'r fath bob amser yn achosi rhywfaint o oedi mewn rhai agweddau penodol ac aildrefnu agweddau eraill. Adroddodd ar y mesurau cadarn sydd yn eu lle i fonitro cynnydd drwy'r bwrdd prosiect ac fe gadarnhaodd yr asesir y risg ar gyfer pob prosiect ac yr ymatebir i unrhyw broblemau yn briodol. Er nad oedd pryder gormodol na fyddai'r terfyn amser yn cael ei ddiwallu, cytunwyd pe bai'r sefyllfa yn newid dylai'r Cyngor fod yn agored am unrhyw oedi i'r terfyn amser a rhannu'r wybodaeth cyn gynted â phosib.
- mewn ymateb i'r cwestiynau, ymhelaethodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill ar y 5% o arbedion na fyddent yn cael eu diwallu o fewn y terfyn amser. Roedd yn cynnwys dwy elfen yn ymwneud â phrosiect 'newid sianeli – dewis digidol' a'r gostyngiad mewn galw am ffioedd cyfreithiol/proffesiynol oedd heb eu gwireddu fel y disgwyliwyd. O ran arbedion y Cynllun Ariannu Preifat byddai £1.4m yn cael ei wireddu a byddai arbedion ariannol yn ystod y flwyddyn yn cael eu dyrannu pan fo'r holl bwysau ar gyllidebau yn hysbys; o 2017/18 roedd yr arian hwnnw wedi'i ddyrannu o fewn y gyllideb.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.

8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau/ diwygiadau canlynol -

- achos busnes ar gyfer adeilad newydd Ysgol Llanfair - Ionawr (i'w gadarnhau)
- diweddariad ar y gwerthusiad opsiynau ar gyfer gwasanaethau gofal mewnol – annhebygol ym mis Rhagfyr gan y byddai'n rhaid cyflwyno canlyniadau'r Grŵp Tasg a Gorffen i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn y lle cyntaf.
- tynnu enwau penodol yr Aelodau Cabinet Arweiniol unigol o'r rhaglen gwaith i'r dyfodol o fis Mai 2017 ymlaen (gan aros am ganlyniad yr etholiad)

PENDERFYNWYD nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 a.m.

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	13 Rhagfyr 2016
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant/ Katie Newe, Rheolwr Tîm Cefnogi Pobl
Awdur yr Adroddiad:	Liana Duffy, Swyddog Comisiynu a Thendro Cefnogi Pobl
Teitl:	Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl Sir Ddinbych 2017-18

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1. Cynllun Comisiynu Lleol (CCLI) 2017-18 ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl (CP) yn Sir Ddinbych; mae hwn yn rhoi diweddariad ar gomisiynu gan Cefnogi Pobl ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, yn dilyn y Cynllun tair blynedd (2016-19), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror eleni.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1. I ymgynghori ar y CCLI CP, gan gynnwys cynigion i reoli gostyngiadau parhaus posibl i'r Grant Cefnogi Pobl (a fodelwyd ar ostyngiad o 0% yn 2017-18 ar hyn o bryd, er bod cynlluniau wrth gefn ar gyfer 5%). Mae'r grant wedi ei neilltuo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cefnogi Pobl, fodd bynnag, bydd dyraniad y grant a'r toriadau a ragwelir yn cael effaith ar wasanaethau eraill y Cyngor.

2.2. Bydd angen i'r cabinet gymeradwyo'r CCLI cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarth (PCRh) a Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2017

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Cymeradwyo Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl 2016-19, cyn cyflwyno'r cynllun i'r PCRh a Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2016.

4. **Manylion yr Adroddiad**

4.1 Mae Cefnogi Pobl yn ffrwd ariannu gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai i bobl ddiamddiffyn sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, gan gynnwys; pobl ifanc, pobl hŷn, pobl sy'n ffoi rhag trais domestig, cyn-droseddwy, pobl â phroblemau cyffuriau neu alcohol a phobl ag anabledau corfforol, meddyliol neu anabledau neu anawsterau dysgu. Nod cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai yw galluogi pobl i ddatblygu a chynnal eu hyder a'u sgiliau i fyw mor annibynnol â phosibl. Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhaglen gwario i arbed ac wedi dangos ei bod yn gallu sicrhau manteision ariannol a rhai nad ydynt yn ariannol.

4.2 Mae'n ofynnol i dimau Cefnogi Pobl ar draws Cymru gyflwyno Cynllun Comisiynu Lleol i'w Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ym mis Ionawr bob blwyddyn. Yn bennaf, mae'r Cynllun yn manylu ar gynlluniau a blaenoriaethau strategol a datblygu cefnogi Pobl; caiff y rhain eu llywio gan ddata a gasglwyd gan Cefnogi Pobl drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys tystiolaeth ymgynghori, data Mapio Anghenion, a chanfyddiadau adolygiadau strategol. Rhai enghreifftiau o'r cynlluniau a'r blaenoriaethau hyn o fewn CCLI Sir Ddinbych 2017/18 yw gweithredu darnau allweddol o ddeddfwriaeth, strategaethau cydweithio (e.e. yn rhanbarthol gyda Thimau CP eraill, ac alinio gyda Phartneriaid Mynd i'r Afael â Thlodi), ac ailfodelu'r

ffyrdd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau (e.e. datblygu llwybr cadarnhaol y bobl ifanc).

4.3 Mae Cefnogi Pobl Sir Ddinbych wedi wynebu toriadau o fwy na 20% (£1.5 miliwn) rhwng 2012 a 2016. Rheolwyd y toriadau hyn o 2012 i 2015 heb unrhyw effaith sylweddol ar lefel y gwasanaeth, 2015-16 oedd y flwyddyn gyntaf y bu'n rhaid i Gefnogi Pobl Sir Ddinbych ddigomisiynu gwasanaethau a oedd yn berthnasol yn strategol. Mae Cefnogi Pobl Sir Ddinbych a'r gwasanaethau a ariennir gan y Rhaglen wedi wynebu pwysau sylweddol ar gyllidebau sydd eisoes yn brin, i helpu'r rhai y mae angen cefnogaeth arnynt fwyaf yn Sir Ddinbych. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu'n fewnol gan y Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ac yn allanol gan sawl sefydliad trydydd sector.

4.4. Mae'r gyllideb ddrafft gan Lywodraeth Cymru wedi nodi y bydd y Grant Cefnogi Pobl yn gyffredinol yn aros yr un fath ar gyfer 2017-18; fodd bynnag, mae'r dyraniad terfynol ar gyfer Sir Ddinbych eto i'w gadarnhau.

4.5. Ar hyn o bryd mae Cefnogi Pobl Sir Ddinbych yn modelu eu cyllideb ar gyfer 2017-18 ar doriadau a ragwelir o 0%, gyda chynllun wrth gefn ar gyfer 5% eisoes wedi ei lunio.

4.6 Bydd Cefnogi Pobl Sir Ddinbych yn parhau i weithio'n strategol, drwy gynllunio a thrafod yn ofalus gyda darparwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid eraill yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys parhau i drafod arbedion effeithlonrwydd ac ail-gyflunio prosiectau presennol gyda darparwyr gwasanaeth; fodd bynnag, fel yn 2016-17, efallai y bydd rhaid i Cefnogi Pobl ystyried prosiectau digomisiynu sy'n dal i fod yn berthnasol yn strategol (bydd y penderfyniadau hyn ond yn cael eu gwneud yn dilyn adolygiad gwasanaeth llawn, ac yn unol â Strategaeth Digomisiynu Cefnogi Pobl Sir Ddinbych).

4.7 Gellir dod o hyd i fanylion ar y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer datblygu gwasanaeth ar dudalennau 19-32 y Cynllun Comisiynu Lleol.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Bydd y prosiectau a chamau gweithredu arfaethedig o fewn y Cynllun Comisiynu Lleol yn cyfrannu at gefnogi Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2012-17 yn y meysydd canlynol:

- Datblygu'r economi leol
- Diogelu pobl ddiameddiffyn a galluogi iddynt fyw mor annibynnol â phosibl
- Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da
- Moderneiddio'r Cyngor i ddarparu arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid

5.2. Bydd cydweithio rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru a strategaeth ranbarthol ar gyfer comisiynu a darparu gwasanaethau hefyd yn cyfrannu at reoli lleihad ym maint y grant a diogelu gwasanaethau rheng flaen.

6. **Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Os bydd toriad o 5% yn cael ei wireddu, byddai hyn yn arwain at ostyngiad Grant o tua £274,485. Byddai hyn yn ychwanegol at y toriadau o £1.2 miliwn dros y 5 mlynedd diwethaf.

6.2. Mae'n anochel y bydd y toriadau hyn yn cael effaith ar y gwasanaethau mewnol a ariennir gan Gefnogi Pobl, gan gynnwys Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol a

Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Bydd y prosiectau a'r newidiadau a nodwyd yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb Cefnogi Pobl a ddyrannir i Sir Ddinbych gan Lywodraeth Cymru. Os na fydd y gyllideb CP yn cael ei thorri, bydd yr holl arian yn parhau i fod o fewn gwasanaethau Cefnogi Pobl (i adlewyrchu hyn, mae Cefnogi Pobl wedi cynhyrchu cynlluniau cyllideb ddrafft yn seiliedig ar 0% a thoriadau o 5% - fel uchod, ni fyddwn yn gwybod i sicrwydd nes i ni dderbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru).

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

7.1 Cwblhawyd Asesiad o Effaith ar Les (AEL) ar 5 Hydref 2016. Nododd hyn bod y Cynllun wedi cael effaith gadarnhaol ar bum allan o'r saith amcan lles; ac mae'r ddau sy'n weddill yn ddiuedd. O safbwynt cynaliadwyedd, cafodd y Cynllun sgôr o 15/24 – gall hyn fod wedi'i ddylanwadu gan yr ansicrwydd ynghylch cyllideb Grant Cefnogi Pobl, fodd bynnag, byddwn yn ailystyried yr Asesiad o Effaith ar Les cyn ei gwblhau, ar ôl cael adborth y Cabinet.

7.2 Fel rhan o Strategaeth Digomisiynu Cefnogi Pobl Sir Ddinbych, bydd Asesiad o Effaith ar Les yn cael ei gwblhau ar gyfer pob prosiect yr ystyrir ei digomisiynu. Bydd arolygiadau gwasanaeth/ rheoli contract drwy gydol y flwyddyn hefyd yn sicrhau y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu nodi a'u cydnabod.

7.3. Roedd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb eisoes wedi cael ei gwblhau ar gyfer y CCLI ym mis Gorffennaf 2016. Cadarnhaodd hyn fod gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cael eu defnyddio gan bob grŵp â nodweddion a ddiogelir; bod pob ymdrech resymol wedi'i wneud i ddileu neu leihau unrhyw effaith negyddol anghymesur posibl ar y rhai sydd â nodweddion a ddiogelir, ac y bydd Cefnogi Pobl yn parhau i fonitro effaith unrhyw newidiadau a wnaed. Ni nodwyd unrhyw effaith niweidiol yn yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a achoswyd gan y Cynllun ar unrhyw nodweddion a ddiogelir.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1. Yn ystod y gwaith o ddatblygu'r CCLI, mae Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Sir Ddinbych (GCCP) wedi ystyried datblygiad ei holl gynnwys.

8.2 Hefyd, ymgynghorodd y Cynllun Comisiynu Lleol â dinasyddion, darparwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid eraill, dros gyfnod o 8 wythnos rhwng 4 Awst a 30 Medi 2016. Yn ystod y cyfnod hwn o ymgynghori, roedd adborth yn cael ei annog drwy amrywiaeth o ffyrdd, cafodd y Cynllun Comisiynu Lleol ei gylchredeg i amryw o fudd-ddeiliaid Cefnogi Pobl, gan gynnwys yr holl brosiectau a gomisiynwyd gan Cefnogi Pobl, atgyfeirwyr, cydweithwyr drwy Gyngor Sir Ddinbych gyfan, ein Partneriaid Trechu Tlodi ac asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill yn yr ardal. Roedd Cefnogi Pobl yn bresennol mewn amryw o gyfarfodydd lle y ceisiwyd adborth e.e. Partneriaeth Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd a'r Grŵp Cynllunio Iechyd Meddwl. Yn ogystal, cynhaliwyd Diwrnod Cynllun Comisiynu Lleol / Cefnogi Pobl yn Neuadd y Dref, y Rhyl ar 12 Medi 2016, gyda dinasyddion a staff o amrywiaeth o asiantaethau sy'n fudd-ddeiliaid yn bresennol. Ychwanegwyd y Cynllun hefyd i wefan CSDd, o dan 'Ymgynghoriadau Cyfredol'.

8.3. Gwnaed mân newidiadau yn dilyn adborth gan y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar 24 Tachwedd, 2016, sydd wedi cael eu rhannu ag aelodau GCCP. Ar ôl cael cymeradwyaeth y Cabinet, bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Chwefror 2016, i hysbysu

datblygiad Cynllun Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru. Bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyhoeddi ar dudalennau Cefnogi Pobl gwefan CSDd a'i dosbarthu i'r holl fudd-ddeiliaid.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Polisi'r Cyngor yw trosglwyddo unrhyw doriadau ymlaen yn uniongyrchol at ffrydiau ariannu grantiau penodol ac felly bydd rhaid rheoli unrhyw ostyngiadau pellach o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?**

10.1. Bydd y cynigion i reoli'r gostyngiad mewn arian grant yn 2016-17 yn rhesymol yn seiliedig ar ffigwr tybiedig o 0%, er bod cynllun wrth gefn mewn grym hefyd i reoli gostyngiad o 5%. Gallai toriadau pellach sy'n fwy na 5% beri risgiau sylweddol i wasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth:

10.2. Mae maint a natur byr-rybudd toriadau o'r fath yn ei gwneud yn anodd penderfynu am sut i weinyddu'r toriadau hyn mewn modd strategol a thryloyw. Efallai y bydd maint y toriadau yn cael effaith anghymesur ar rai darparwyr llai sydd ag ychydig iawn o le ar gyfer arbedion effeithlonrwydd.

10.3. Mae'n rhaid i doriadau gael eu hystyried yn rhanbarthol - nid yn unig bod yna wahaniaeth bosibl mewn barn ynghylch blaenoriaethau rhanbarthol i ariannu, ond gallai lefel y toriadau ansefydlogi darparwyr cyfan sy'n gweithio ar draws y rhanbarth.

10.4. Gall hyn beri sgil-ffeithiau a fyddai'n niweidio hyder darparwyr a'r berthynas dda sydd gennym gyda nhw - gellir rheoli hyn i ryw raddau drwy barhau i rannu gwybodaeth berthnasol gyda darparwyr.

10.5. Ni fydd yn bosibl rheoli toriadau o'r maint hwn dim ond drwy ailfodelu gwasanaethau i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd, ond bydd yn golygu bod angen digomisiynu gwasanaethau cyfan sy'n darparu cefnogaeth o ansawdd uchel. Bydd hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar wasanaethau rheng flaen a bydd yn lleihau cefnogaeth sydd wir ei hangen ar gyfer rhai trigolion yn Sir Ddinbych. Mae Cefnogi Pobl Sir Ddinbych wedi datblygu Strategaeth Ddigomisiynu er mwyn rheoli'r broses hon mewn modd teg a thryloyw.

10.6. Mae Cefnogi Pobl yn lleddfu'r baich ar wasanaethau statudol sydd eisoes wedi'u gwasgu, fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a'r Heddlu, trwy weithio i atal sefyllfaoedd o argyfwng. Bydd toriadau pellach i Cefnogi Pobl yn rhoi hyd yn oed mwy o bwysau ar wasanaethau statudol.

10.7. Mae Cefnogi Pobl hefyd yn allweddol iawn yn eu cefnogaeth i ddarparu Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

10.8. Yn y blynyddoedd blaenorol rydym wedi derbyn rhwyd arbed ar ffurf cronfa wrth gefn Cefnogi Pobl, fodd bynnag, ni fydd ar gael eleni na'r flwyddyn nesaf ychwaith gan y bydd y gyllideb yn cael ei defnyddio gan Wasanaethau Cymorth Cymunedol CSDd i liniaru effaith y toriadau i wasanaethau mewnol – o ganlyniad i doriadau Grant Cefnogi Pobl a thoriadau pellach i gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol.

10.9. Mae Cefnogi Pobl Sir Ddinbych yn cyflwyno cynllun wrth gefn i Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl i baratoi ar gyfer toriadau sy'n fwy na 5%.

10.10. Ym mis Medi 2015, pleidleisiodd Cyngor llawn Sir Ddinbych yn unfrydol o blaid y cynnig i amddiffyn cyllideb Cefnogi Pobl rhag toriadau pellach, ac i gefnogi ymgyrch genedlaethol 'Dewch i Barhau i Gefnogi Pobl' a gynhelir gan Gymorth Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae penderfynu ar gynnwys unrhyw gynllun, strategaeth neu ddogfen bolisi arall yn gofyn am gymeradwyaeth Aelod Arweiniol y Cabinet yn unol ag Offeryn Statudol 2001 Rhif 2291 (W,179) Rheoliad 4 (3) (c) + (d)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Denbighshire County Council Supporting People Local Commissioning Plan 2017-18

Tudalen 17

Contents

Introduction	2
Strategic Priorities	3
Need, Supply and Service Gaps	7
Consultation Evidence	13
Priorities for Development	14
Service Development	19
Equality Impact Assessment	33
Spend Plan	34

Date	December 2016
Version	0.3
Status	Final draft for Cabinet

Introduction

What is Supporting People?

Supporting People is a Welsh Government Programme which provides housing related support services to people over the age of 16. This support enables people to live independently in the community, and prevent homelessness.

What is Housing Related Support?

Housing related support is provided to help people develop or maintain the skills and confidence necessary to live as independently as possible. This can include:

- Support to develop life and domestic skills
- Support to around budgeting, including accessing money advice
- Support to access other services and opportunities which may be beneficial
- Support to establish safety and security

Tudalen 18

Denbighshire Supporting People Vision:

Supporting people to improve their quality of life

Our Mission Statement:

Working together to ensure the delivery of quality housing support services, which enable people to live independently and avoid homelessness

Our Principles:

- ❖ **Early intervention**
- ❖ **Citizen focus**
- ❖ **Creative, flexible, pro-active, and responsive solutions**
- ❖ **Transparency**
- ❖ **Outcomes focus**

Strategic Priorities

The Supporting People Programme aims to support vulnerable people to live as independently as possible by providing housing-related support services. It is focused on early intervention by preventing homelessness or a move to higher dependency institutional settings where possible, which can often result in savings to other front-line services such as social care, health and criminal justice. The Programme must therefore remain up-to-date with recent trends and developments both locally and nationally in order to remain relevant and cost-effective to other services.

There are significant legislative and policy changes affecting Supporting People, along with continued economic pressures not only on Supporting People but on wider public services. It is therefore imperative that we focus our efforts to ensure the services we deliver remain strategically relevant and take advantage of opportunities to streamline our work through increased collaboration with key partners.

Denbighshire Supporting People's current strategic priorities are:

1. Managing the ongoing budget cuts

It is expected that Supporting People will continue to face additional cuts as a result of reduced public spending nationally, despite a welcome reprieve in 2016-17 when the Supporting People budget was protected and maintained at 2015-16 level across Wales. The Denbighshire Supporting People budget has been reduced by 21.5% (£1.5 million) between 2012 and 2016. Denbighshire Supporting People will continue to seek to mitigate these cuts as far as possible through careful planning and negotiation with service providers and other stakeholders locally and regionally. The scale of the cuts may however require some services to be decommissioned despite being assessed as strategically relevant; this will be carried out using the Denbighshire Supporting People Decommissioning Strategy.

Following the draft budget release, Denbighshire Supporting People are currently modelling their 2017-18 budget on anticipated cuts of 0%, with a contingency plan for 5% (savings in excess of 5% had been found in anticipation of a 10% cut in 2016-17, which were then reinvested in short-term in-year projects when no cuts were made; therefore,

should 5% cuts materialise, it is anticipated that a large portion of these savings at this level will be found through the natural end of these in-year projects). If the budget is not cut, all money will remain in SP services.

2. Implementation of key pieces of legislation: Housing (Wales) Act 2014, Social Services & Well-being (Wales) Act 2014, Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, and Violence Against Women, Domestic Abuse & Sexual Violence (Wales) Act 2015

The implementation of the first two acts will have a substantial impact on Supporting People over the coming years. Both have a heavy focus on early intervention where people need support to live independently, which aligns well with Supporting People's key aim of preventing homelessness through early intervention - therefore it is anticipated there will be increased demand on our services.

Similarly, the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 requires public bodies to carry out their functions in a sustainable way which improves our economic, social, environmental and cultural well-being - in practice, this means delivering preventative services, considering both short- and long-term needs, and working in collaboration with partners to deliver better outcomes and avoid duplication.

The Violence Against Women, Domestic Abuse & Sexual Violence (Wales) Act 2015 highlights the importance of early intervention work to prevent victims of violence against women, domestic abuse and sexual violence, becoming homeless in the first instance, and also wherever possible to allow them to stay in their own homes - again, aligning well with Supporting People's aims. Requirements under the Act are predicted to increase the numbers of people disclosing domestic abuse, which will likely in turn increase demand on our services in this area.

Denbighshire Supporting People continue to develop closer relationships with colleagues within Community Support Services, Education, and Children's Services, to support the implementation of these acts within Denbighshire - including exploring opportunities for joint commissioning with statutory services. Denbighshire Supporting People have identified available funding to assist with the development of the Denbighshire Homelessness Strategy, in addition to working collaboratively to inform the content and proposed solutions within the Strategy.

3. Contributing to the Tackling Poverty Agenda

In 2014, Supporting People, along with Housing and Homelessness, was incorporated into the Communities and Tackling Poverty Ministerial portfolio. Welsh Government highlighted the opportunities for greater links to be forged between Supporting People and the Tackling Poverty programmes: Communities First, Families First and Flying Start, and in 2016 have streamlined the administrative processes to allow greater flexibility and alignment between the four programmes.

These programmes are already collaborating locally through the development of a Corporate Anti-Poverty Group, and Strategic and Operational Groups. Work is currently underway in 2016 to map all services across the Tackling Poverty programmes, reduce duplication, and strengthen the support delivered, by identifying areas for joint commissioning - the first of which is likely to be around education and employment.

4. Closer regional collaboration

The establishment of the North Wales Supporting People Regional Collaborative Committee (RCC) in 2012 has enabled a strategic overview of developments that affect Supporting People both locally and regionally, through improved information-sharing. This allows opportunities for closer regional working between Supporting People Teams across North Wales, which presents an additional opportunity for making efficiency savings.

Denbighshire Supporting People are already engaged with a small number of regional and sub-regional projects, and continue to explore further opportunities for regional and sub-regional commissioning where appropriate - most recently working with Flintshire and Wrexham Councils on the delivery of a Syrian Resettlement Programme Orientation Project. Supporting People Teams across the region also work closely together to adopt standardised paperwork and processes, which delivers time and cost savings to both Supporting People Teams and service providers who work across more than one authority. Further opportunities for working closer together that are currently being explored include developing a joint Supporting People commissioning team across Flintshire and Denbighshire, development of a regional or sub-regional Referral Pathway, and contributing to the development of pilot regional projects.

Denbighshire Supporting People also represent North Wales Supporting People at groups such as the National Supporting People Outcomes Data Group, National Rough Sleeper Working Group, North Wales Area Planning Board Delivery Group, National Domestic Abuse Modernisation Group, Supporting People National Advisory Board, and the Local Health Board's Homeless & Vulnerable Groups Health Action Plan (for which Denbighshire Supporting People carried out a significant piece of citizen consultation work across North Wales).

Whilst working on these priorities, Denbighshire Supporting People will continue to be informed by local and national factors, including those already referenced above and:

- Equality considerations, including Denbighshire's Strategic Equality Plan, and the Welsh Language Standards
- Corporate guidance, including Denbighshire's Corporate Plan 2012-17; the Wellbeing Plan 2014-2018 (Single Integrated Plan), and the Supporting Independence in Denbighshire agenda
- National guidance, including the Supporting People Programme Grant Guidance 2013 (with new guidance due in 2016-17); the Ten Year Homelessness Plan for Wales 2009-2019, and the Standards for Improving the Health and Well-being of Homeless People and Specific Vulnerable Groups 2013
